# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)**

| **Aelodau'n bresennol:** | **Dydd Mawrth, 11 Hydref 2022** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod C.James** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod J.Jones** |
| **Cynghorydd**: | S.Paddison, D.Keogh, R.Davies, T.Bowen, C.James, C.Jordan, C.Phillips a/ac S.Thomas |
| **Aelod CDU/CDLl:** | Aelod W.F.Griffiths |
| **Aelodau Lleol:** | Aelod S.Pursey, S.Freeguard, S.Rahaman, A.Dacey and S.Grimshaw |
| **Swyddogion yn bresennol:** | N.Pearce, C.Morris, C.Davies, M.Shaw, G.White, J.Griffiths, J.Weeks, N.Lake, K.Powell, C.Hall, L.Palmer, K.Williams, J.Woodman-Ralph a/ac C.Plowman |

---

1. **CROESO A GALW'R RHESTR**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Awst 2022 fel cofnod cywir.

4. **GWNEUD CAIS AM YMWELIAD (AU) SAFLE O'R CEISIADAU A GYFLWYNWYD**

Cynigwyd y byddai ymweliad safle yn cael ei drefnu ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ar 20 Hydref 2022; mewn perthynas â Chais Cynllunio P2022/0776 i gymeradwyo materion a gadwyd yn ôl ar gyfer y cyrchfan antur y mae *Wildfox* yn bwriadu'i sefydlu, ar dir ym Mhen-y-bryn, Croeserw, y Cymer

**PENDERFYNWYD:** Trefnu ymweliad safle â *Wildfox*, ar dir ym Mhen-y-bryn, Croeserw, y Cymer.

5. **RHIF Y CAIS P2021/0856 - EAGLE HOUSE**

Darparodd Swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (dymchwel y swyddfa ddeulawr bresennol, ac adeiladu 18 o fflatiau tai fforddiadwy ar y lloriau uchaf gydag unedau swyddfa/masnachol ar y llawr gwaelod a gwaith allanol cysylltiedig ac ardal barcio yn Eagle House, 2 Heol Talbot, Port Talbot SA13 1DH) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnodd yr Aelodau Ward Lleol a'r Aelod Lleol dros Ddwyrain Sandfields i'r cais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio, ac roeddent yn bresennol i roi eu sylwadau yn y cyfarfod.

Yn unol â phrotocol siarad cyhoeddus cymeradwy'r cyngor, anerchwyd y Pwyllgor Cynllunio gan gynrychiolydd yr ymgeisydd, a dilynwyd hyn gan wrthwynebydd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2021/0856, yn unol ag argymhellion Swyddogion, yn amodol ar yr amodau ac ar lofnodi Cytundeb Adran 106 a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

6. **RHIF Y CAIS P2022/0470 - TIR YN FFORDD BAGLAN**

Darparodd Swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Adeiladu uned ddiwydiannol (dosbarth defnydd B2) (AMG 25,545 metr sgwâr) gyda gwaith cysylltiedig gan gynnwys draenio cynaliadwy, meysydd parcio, storfa feiciau a gwaith tirlunio ar dir yn Ffordd Baglan, Castell-nedd Port Talbot) fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelodau Ward Lleol wedi gofyn am i'r cais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor ac roeddent yn bresennol i roi eu sylwadau yn y cyfarfod.

Yn unol â phrotocol siarad cyhoeddus cymeradwy'r cyngor, anerchwyd y Pwyllgor Cynllunio gan gynrychiolydd yr ymgeisydd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2022/0470, yn unol ag argymhellion Swyddogion, yn amodol ar yr amodau a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. a’r amod ychwanegol a gynigiwyd ac a gytunwyd gan y Pwyllgor Cynllunio, fel y nodir isod:

23. Er gwaethaf y Cynllun Teithio a gyflwynwyd, 12 mis ers defnydd llesiannol cyntaf y datblygiad a gymeradwyir drwy hyn, caiff Cynllun Teithio diweddaredig ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y Cynllun Teithio diwygiedig yn cynnwys manylion penodi Cydlynydd Cynllun Teithio, ac yn ogystal â mynd i’r afael â’r dulliau o annog staff i ddefnyddio dulliau teithio mwy cynaliadwy a lleihau’r galw ar drafnidiaeth breifat, dylai’r cynllun gynnwys manylion ynghylch sut y gellid defnyddio trafnidiaeth y datblygiadau i annog staff ac ymwelwyr â’r safle i ddefnyddio cludiant cyhoeddus, a defnyddio opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy, fel beicio, cerdded neu rannu ceir. Dylai’r cynllun hefyd gynnwys cynllun/amserlen fonitro fanwl, a fydd yn cynnwys adolygiadau rheolaidd ar gyfer y cyfnod cychwynnol o bum mlynedd, ynghyd â manylion ynghylch cyflwyno a chymeradwyo Cynlluniau Teithio diweddaredig dilynol bob pum mlynedd ar gyfer cyfnod gweithredu’r datblygiad, a fydd yn ceisio mynd i’r afael ag unrhyw faterion sydd wedi methu lleihau’r defnydd o’r car a chyrraedd y targedau y cytunwyd arnynt a nodwyd yn y cynllun teithio. Bydd yr holl fesurau a nodir mewn unrhyw Gynllun Teithio cymeradwy sy'n ofynnol gan y cynllun yn cael eu rhoi ar waith o fewn tri mis ar ôl ei gymeradwyo.

Rheswm:
Er mwyn hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy ac i sicrhau bod y datblygiad yn cydymffurfio â Pholisi SP20 Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot.

## 7. RHIF Y CAIS P2022/0521 - 7 STRYD CLARICE

Darparodd Swyddogion gyflwyniad i’r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (newid defnydd o annedd (defnydd C3) i dŷ amlfeddiannaeth (HMO) (defnydd C4) â 5 ystafell wely ynghyd ag estyniad cefn ar y llawr cyntaf yn 7 Stryd Clarice, Aberafan), fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd yr Aelodau Ward Lleol wedi gofyn am i’r cais gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio, ac roeddent yn bresennol i roi eu sylwadau yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2022/0521, yn unol ag argymhellion Swyddogion, yn amodol ar yr amodau a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

8. **APELIADAU Y PENDERFYNWYD ARNYNT - 11 GORFFENNAF 2022 TO 3 HYDREF 2022**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Apeliadau y Penderfynwyd arnynt o 11 Gorffennaf i 3 Hydref 2022.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

9. **APELIADAU A DDERBYNIWYD - 11 GORFFENNAF 2022 TO 3 HYDREF 2022**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Apeliadau a Dderbyniwyd o 11 Gorffennaf 2022 i 3 Hydref 2022.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

10. **PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 1 AWST 2022 TO 3 HYDREF 2022**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Benderfyniadau Dirprwyedig o 1 Awst i 3 Hydref 2022.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

11. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**